



Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Parthed:- Cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru Hysbysiad i Gyfyngu ar gyfres o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yr ydym yn awyddus i'w datblygu i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2019. Dilynodd hyn [Adolygiad](#), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, ac [Ymgynghoriad](#) a lansiwyd ym mis Medi, a chyflwynwyd [adroddiad arno](#) ym mis Tachwedd. Yn dilyn yr hysbysiad gwahoddwyd partion â diddordeb i gyflwyno cynrychioliadau mewn ymateb i'r Cyfyngiad arfaethedig.

Derbyniom dri chynrychioliad gan gyrrff dyfarnu. Ystyriwyd y materion a godwyd yn ofalus, ac rydym wedi ymateb i'r cyrrff dyfarnu hynny yn unigol. Mae Bwrdd Cymwysterau Cymru wedi ystyried y materion hyn ymhellach ac wedi penderfynu parhau â'r Cyfyngiad. Bwriadwn gyhoeddi'r Penderfyniad i Gyfyngu yn ffurfiol ym mis Ionawr 2017.

Bwriadwn felly ddechrau proses gaffael deg a thryloyw i ddyfarnu contractau i gorff neu gyrrff dyfarnu cydnabyddedig er mwyn datblygu'r cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant newydd i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2019.

Caiff yr hysbysiad contract ei gyhoeddi ar [GwerthwchiGymru](#) (gwerthwchigymru.llyw.cymru) er mwyn hysbysu partion â diddordeb o adeg cychwyn y broses gaffael a'r ffordd y gallant gymryd rhan. Disgwyliwn i hyn fynd yn fyw ar 6 Ionawr 2017. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cynnig, cofrestrwch nawr ar gwerthwchigymru.llyw.cymru er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn hysbysiad o dendrau yn y categori 'gwasanaethau addysg a hyfforddiant', cod CPV 80000000. Gallwch gofrestru am ddim.

Byddwn yn cynnal y broses mewn sawl cam yn dechrau gyda cham cyn cymhwyso er mwyn sicrhau y bydd gan y cyrff dyfarnu hynny sy'n dod i'r cam tendro y gallu, y cymhwysedd a'r statws ariannol i gyflawni'r contractau.

Bydd y fanyleb contract, telerau ac amodau'r contract, y meini prawf gwerthuso lefel uchel a'r holiadur cyn cymhwyso ar gael ar [edendrocymru](http://edendrocymru.etenderwales.bravosolution.co.uk) (etenderwales.bravosolution.co.uk.). Bydd y fanyleb contract yn cynnwys strwythur y lot (grŵp o gymwysterau y gall partïon â diddordeb wneud cynnig ar eu cyfer i'w datblygu a'u darparu) yn ogystal â'r strwythur a'r fframwaith cymwysterau arfaethedig.

Cynhwysir yr amserlen ar gyfer camau amrywiol y broses yn y dogfennau ar edendrocymru, ynghyd ag esboniad o bob cam. Byddwn yn cynnal gweminar yn dilyn cyhoeddiad yr holiadur cyn cymhwyso er mwyn esbonio ymhellach y cam hwn yn y broses a derbyn cwestiynau.

Unwaith mae'r hysbysiad contract wedi'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2017, byddwn yn eich atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud â'r broses gaffael drwy'r cyfleuster cysylltu ar edendrocymru, ac nid i Cymwysterau Cymru yn uniongyrchol. Yn y cyfamser, cysylltwch â'n Pennaeth Caffael, Liz Frizi gydag unrhyw ymholiadau am y broses gaffael (liz.frizi@qualificationswales.org).

Yn gywir,



Philip Blaker

Prif Weithredwr

Cymwysterau Cymru